# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
## a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
### Nos Fawrth 9fed o Ebrill, 2019 am 7:00y.h.



Cadeirydd: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

| | |
|---|---|
| **Presennol :** | Cynghorwyr - Griffith Jones **(GJ)**, Sara Williams **(SW)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO)**, Gwilym Williams **(GW)**, Ynyr Ellis **(YE)**, Lizbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ)**, a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)**. |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd **GJ** pawb i'r cyfarfod. |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts **(OR)**<br>**Absenoldeb –** Emlyn Hughes **(EH)** |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim. |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Derbyniwyd tri tendr wedi eu haddasu i gynnwys ail doriad i dorri gwellt y Fynwent - Cytunwyd i dderbyn y cais isaf sef Danny's Garden services.<br>***Y Clerc i'w hysbysu o'i lwyddiant.*** |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod 12fed o Fawrth, 2019** |
| | *5.1* | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **LJ** eu cywirdeb, eiliodd **JO** ac fe'u mabwysiadwyd. |
| | *5.2* | **Materion yn codi** |
| | *5.2.1* | **Cerrig Milltir**<br>Y Clerc i gylchredeg eu lleoliadau eto. |
| | *5.2.2* | **Ysbwriel**<br>Cytunwyd bod rhai casgliadau ac wythnosau yn well na'i gilydd - awgrymodd **AWJ** i'r Cyngor awgrymu i'r trigolion gadw dyddiadur fel bydd wedyn tystiolaeth o ba ddyddiadau a pha gasgliadau sydd yn achosi trafferthion. |
| | *5.2.3* | **Gôr yrru drwy Lithfaen**<br>Esboniodd y Clerc iddi dderbyn e. bost gan Reolwr Uned Traffic Cyngor Gwynedd yn hysbysu'r Cyngor bod peiriannydd traffig wedi bod allan yn asesu'r safle i godi'r arwyddion. Fel arfer mae amserlen ar gyfer creu, pwrcasu a gosod arwyddion traffig rhwng 4-6 wythnos.<br>Credodd fydd y gwaith yma wedi ei gwblhau yn bell o fewn yr amserlen hon. |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Cais Rhif: C19/0308/43/LL<br>Bwriad: Adeiladu porth i'r blaen ac estyniad unllawr to brig i'r cefn ynghyd a gosod ffenestri to<br>Lleoliad : Bwthyn Grug, 7, Mount Pleasant, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6NU<br>***Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir nid oedd gwrthwynebiad nac awgrymiadau i'r Cynlluniad a gyflwynwyd.*** |
| **7.** | | **Cynllun gweithredu**<br>I'w drafod eto |
| **8.** | | **Wal y Ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>Esboniodd SP ei bod wedi gwneud ymholiadau i weld pe bai'r cwrs walio fydd yn cael ei gynnal yn nhop y Nant yn gallu helpu, ond yn anffodus oherwydd y lon nid oeddent yn gallu helpu hefo'r wal mewn cwestiwn.<br>Nid oedd diweddariad pellach i wneud hefo'r cais am y Grant. |
| **9.** | | **Baw Ci yn y gymuned**<br>Cyflwynodd y Clerc amcan brisiau am y biniau baw ci a thrafodwyd costau gwagio sef £3 y bin. (Penderfynwyd eisoes bydd agen o leiaf 3 bin yn y gymuned). Bydd trefniadau i'w prynu a'i gosod yn cael ei drafod mewn cyfarfod eto.<br>***Y Clerc i ddarganfod pwy fydd yn ei gosod a chostau gosod.*** |
| **10.** | | **Beicio quad ar Dre Ceiri**<br>Mae'r Cyngor eisoes wedi cefnogi ymgyrch Cyfoeth Naturiol Cymru i arbed y broblem sy'n parhau gydag oedolion a phlant yn beicio quad ar Dre Ceiri.<br>Trafodwyd trafferthion plisoma'r sefyllfa gan fod yn anodd cysylltu â'r heddlu lleol a phenderfynwyd awgrymu i'r trigolion gysylltu ag 101.<br>***Y Clerc i ofyn i Gyfoeth Naturiol am arweiniad pellach*** |
| **11.** | | **Gôr yrru drwy Lithfaen**<br>Gweler pwynt 5.2.3 |
| **12.** | | **Materion Lleol** |
| | *12.1* | **Ysbwriel a gwastraff gardd yn dop y Nant**<br>Esboniodd **GJ** fod y mater dal i barhau<br>***Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor eto*** |
| | *12.2* | **Bwlch yn y wal gyferbyn a Tabor**<br>Esboniodd **LJ** bod bwlch yn y wal yn dilyn ffrwydrad olwyn lori graenu ers mis Ionawr.<br>***Y Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir*** |
| **13.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | *13.1* | **Cais at Gynghorau Cymuned a Thref ardal Llŷn i ariannu teithiau i'r Feddygfa.**<br>Gan nad oedd y Cynghorwyr yn ymwybodol o drigolion fydd yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth penderfynwyd cadw'r wybodaeth mewn sylw. |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979 438 307*

| | | |
|---|---|---|
| | *13.2* | **Credyd Cynhwysol - Universal Credit - Cais gan Gyngor Gwynedd i godi ymwybyddiaeth i'r ymgyrch**<br>SP wedi derbyn pecyn yn y siop yn dilyn cais gan y Clerc ac eisoes wedi ei gosod yn y siop a'r Ganolfan Gymunedol |
| **14.** | | **Cyllid** |
| | *14.1* | **Cyfrifon Blynyddol**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2018/19.<br>Cynigiodd GW eu cywirdeb ac eiliodd YE a chytunodd pawb. |
| | *14.2* | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfrif Cyfredol**<br>**Taliadau -** Taliad ail ymaelodi ac Un Llais Cymru £92.00<br>Hyfforddiant Un Llais Cymru £40.00<br>Cyflog Clerc £160.00<br>Treuliau Clerc £36.59<br>Adran Aelwyd Gwrtheyrn: £400.00<br>Pwyllgor Gŵyl Ifan: £400.00<br>Pwyllgor Cae Chwarae: £700.00<br>Canolfan Gymdeithasol Llithfaen: £5,400.00<br>**Balŵns - £608.01**<br>*Siec heb ei chyflwyno - Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl: £100.00*<br><br>**Cyfrif Cadw**<br>**Balŵns - £2,989.86** |
| | *14.3* | **Taliadau a gymeradwywyd yn ystod y Cyfarfod**<br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc - £15.55<br><br>**Derbyniwyd rhodd tuag at Diffiblwr y gymuned yn dilyn raffl Y Fic o £91.07-**<br>Y Clerc i'w roi yn y Cyfrif Cadw |
| **15.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>14eg o Fai, 2019 i gychwyn am 6.30 gyda'r Cyfarfod Blynyddol |

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979 438 307*